# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 6

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

## PENNOD 3

GWAREDU ACHOSION ADDASRWYDD I YMARFER

### 138 Gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer: canfyddiad o amhariad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo panel addasrwydd i ymarfer wedi dyfarnu bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer.

(2) Rhaid i'r panel waredu'r mater mewn un o'r ffyrdd a grybwyllir yn is-adrannau (3) i (9).

(3) Caiff y panel wneud gorchymyn o dan adran 135(2) ar gyfer dileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr drwy gytundeb.

(4) Caiff y panel gytuno ar ymgymeriadau â'r person cofrestredig; yn yr achos hwnnw, mae adran 136(2) a (3) yn gymwys mewn cysylltiad ag ymgymeriadau o'r fath.

(5) Caiff y panel benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â'r person cofrestredig.

(6) Caiff y panel roi rhybudd i'r person cofrestredig mewn cysylltiad ag ymddygiad neu berfformiad yn y dyfodol.

(7) Caiff y panel wneud gorchymyn cofrestru amodol, sef gorchymyn sy'n gosod amodau ar gofrestriad y person.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(8) Caiff y panel wneud gorchymyn atal dros dro, sef gorchymyn sy'n atal cofrestriad y person cofrestredig dros dro.

(9) Caiff y panel wneud gorchymyn dileu, sef gorchymyn ar gyfer dileu'r cofnod sy'n ymwneud â'r person cofrestredig yn y gofrestr.

(10) Ond ni chaiff y panel wneud gorchymyn dileu os yr unig sail y mae wedi dyfarnu bod amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer arni yw iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol.